# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023 am 1.30 pm**

**Yn Bresennol**:

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Gareth Borsden, Cyngor Abertawe
Eve Davies, Heddlu De Cymru
Helen Grey, Cyfoeth Naturiol Cymru
Daniel Jones, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Alice Puchades, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Gwynfor Thomas, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Nerissa Vaughan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Ness Young, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Keith Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Martin Nicholls, Cyngor Abertawe
Keith Reid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Mark Wade, Cyngor Abertawe

## 1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd Andrea Lewis, Cyngor Abertawe yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**Bu'r Cynghorydd Andrea Lewis (Cadeirydd) yn llywyddu**

## 2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**Penderfynwyd** y dylid ethol Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 4 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023 fel cofnod cywir

## 5 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 6 Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyflwynodd Ness Young adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r BGC ar ddatblygiad cynllun gweithredu 2023-24 ac amlinellodd y cynnydd ar y camau gweithredu hyd yn hyn.

Amlinellodd ers cyfarfod diwethaf y BGC a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023, penderfynwyd ar gynllun gweithredu ac atodwyd hwnnw i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn Atodiad A.

Cyflwynodd Ness Young, Nerissa Vaughan, Roger Thomas a Helen Gray yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r BGC ar y camau gweithredu amrywiol a gymerwyd, y canlyniadau dymunol a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn ogystal â'r dyddiadau cerrig milltir ar gyfer cyflawni'r cynnydd gyda'r wyth maes a nodwyd yn y cynllun, yn bennaf

- Cefnogi trawsnewid Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn Abertawe i ddarparu cefnogaeth well i blant er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt;
- Adeiladu ar ddatganiad Abertawe yn 2022 o fod yn Ddinas Hawliau Dynol;
- Gweithio tuag at darged sero net Abertawe ac adfer natur;
- Gwneud Abertawe'n fwy diogel, yn fwy cydlynol ac yn fwy ffyniannus;
- Datblygu Cynnig Diwylliannol Integredig Abertawe; (Bydd Ness Young yn darparu rhagor o fanylion i'r BGC ynghylch cam gweithredu rhif dau ac yn esbonio a oedd y cam yn GOCH mewn gwirionedd, ac os felly, pam?)
- Dylanwadu ar drefniadau llywodraethu eraill a'u cysylltu ar draws rhanbarth Bae Abertawe;
- Gwella ansawdd data a hygyrchedd ar draws rhanbarth Bae Abertawe;
- Datblygu trefniadau rheoli perfformiad BGC Abertawe sy'n mesur ac yn monitro cynnydd y BGC

**Penderfynwyd** y byddai'r Bwrdd yn gwneud y canlynol
1) nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod chwarter 1 2023-24.
2) cytuno i dderbyn adroddiad diweddaru ar feysydd y cynllun gweithredu a'i gynnydd fel eitem sefydlog yn ystod cyfarfodydd y BGC yn y dyfodol.

## 7 Pwysau Iach, Cymru Iach (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Amlinellodd Ness Young y cylch gorchwyl diwygiedig a ddiweddarwyd a manylwyd arnynt ar gyfer y BGC yn dilyn newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn eu hadolygu a'u cymeradwyo.

Nododd y byddai angen diwygiadau bach pellach ar y diagram a gynhwysir o fewn yr atodiad.

**Penderfynwyd** ar y canlynol

1) cytuno ar y cylch gorchwyl diwygiedig a'u mabwysiadu.
2) rhoi'r awdurdod dirprwyedig i Ness Young newid y diagram a gynhwysir o fewn yr atodiad.

## 8 Rhaglen Waith y Dyfodol.

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.02 pm

**Cadeirydd**